

Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf

Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf

Canllawiau ar gyfer llenwi'ch Ffurflen Cyflwyno Adroddiad am Blentyn (C1)

Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf	Dyddiad: Rhagfyr 2014	Statws: Fersiwn derfynol wedi'i chymeradwyo
		Wedi'i diweddarau: Mai 2015
Awdur:	Tud 1 o 10	Dyddiad adolygu: 2017

PAGE 2

Cynnwys

Cyflwyniad	tud 3
Adran 1: Rheswm dros gyflwyno'r adroddiad	tud 4
Adran 2: Manylion yr Ymarferydd sy'n cyflwyno'r adroddiad	tud 5
Adran 3: Manylion y plentyn/person ifanc	tud 5
Adran 4: Prif warcheidwaid y plentyn/person ifanc	tud 5
Adran 5: Aelodau o deulu'r plentyn/person ifanc neu'r bobl bwysig eraill yn ei fywyd	tud 6
Adran 6: Manylion y person(au) sy'n peri pryder	tud 6
Adran 7: Gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill	tud 7
Adran 8: Manylion ymyriadau blaenorol (statudol, arbenigol ac wedi'u targedu)	tud 7
Adran 9: Manylion Asesiadau Risg Blaenorol	tud 7
Adran 10: Caniatâd / Gwybod am yr atgyfeiriad	tud. 7
Sut mae cael ffurflen electronig i gyflwyno adroddiad ar gyfer plentyn	tud 10
Sut mae anfon eich ffurflen	tud 10
Sut mae cysylltu â ni	tud 10

Cyfrifoldeb Pawb – Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008

“Os oes gan unrhyw berson wybodaeth, pryderon neu amheumon bod plentyn yn dioddef, wedi dioddef neu'n debygol o fod mewn perygl o niwed, eu cyfrifoldeb nhw yw sicrhau bod ei bryderon yn cael eu cyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu, sydd â dyletswyddau statudol a phwerau i wneud ymholiadau ac ymyrryd pan fo angen”

Pryderon am blentyn sydd mewn perygl uniongyrchol

Os ydych chi o'r farn bod plentyn/plant mewn perygl uniongyrchol, ffoniwch yr Heddlu ar 999

Cyn i chi ddechrau

Mae'n hanfodol i chi ddarllen y ganllaw yma oherwydd ei bod hi'n rhoi gwybodaeth i'ch helpu chi i lenwi'ch ffurflen atgyfeirio.

Mae'r ffurflen atgyfeirio wedi'i rhannu'n 10 adran. Mae'r canllaw yma'n rhoi cyfarwyddiadau am sut i'w llenwi, ac yn darparu rhagor o wybodaeth ar gyfer pob adran. I gael rhagor o gymorth neu gyngor, ffoniwch y Gwasanaethau i Blant: RhCT 01443 742928 / Merthyr Tudful 01443 743619.

Darllenwch yr wybodaeth a'r canllawiau (isod) sy'n cael eu darparu gan Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar www.awcpp.org.uk/cy

Diffiniad cam-drin ac esgeuluso

“Caiff plentyn ei gam-drin neu ei esgeuluso pan fo rhywun yn peri niwed iddo, neu'n methu â gweithredu i atal niwed. Gall plant gael eu cam-drin gan eu teulu neu mewn lleoliad sefydliadol neu gymunedol gan y rheini sy'n eu hadnabod neu, mewn achosion prinnach, gan ddieithryn. Gall plentyn neu berson ifanc hyd at 18 oed ddioddef cam-drin neu esgeuluso a bydd angen ei amddiffyn drwy gynllun amddiffyn plant amlasiantaethol”

Adnabod ac Atgyfeirio

Gall amheumon bod plentyn yn cael ei gam-drin fod ar ffurf 'pryderon' yn hytrach na 'ffeithiau hysbys'. Gall pryderon ynglŷn â lles plentyn godi mewn amryw o wahanol gyd-destunau, gan gynnwys pan mae'r gwasanaethau cymdeithasol eisoes yn gwybod am blentyn. Mae'n bosibl ac yn ddymunol i rywun rannu pryderon gyda'r gwasanaethau cymdeithasol trwy atgyfeirio. Er nad yw pryderon yn gorfod ysgogi ymchwiliad, maen nhw'n helpu i greu darlun os yw rhywun arall wedi cyfleu pryderon y gallai'r un plentyn fod yn cael ei gam-drin.

Mynd ati i atgyfeirio

Mae angen atgyfeirio achos at y gwasanaethau cymdeithasol cyn gynted â bod problem, amheuaeth neu bryderon ynglŷn â phlentyn yn dod i'r amlwg, ac yn bendant **o fewn 24 awr** fan bellaf. Y tu allan i oriau gwaith, dylai atgyfeiriadau gael eu gwneud i wasanaeth argyfwng y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu.

PAGE 4

Pan fydd atgyfeirio'n digwydd dros y ffôn neu'n bersonol, dylai'r atgyfeiriad gael ei gadarnhau mewn ysgrifen o fewn dau ddiwrnod gwaith. Dylai'r sawl sy'n gwneud atgyfeiriad ddarparu cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl ar y Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaeth.

Rhwystro ac Ymyrraeth Gynnar

Dylai'r sawl sy'n gwneud atgyfeiriad fod yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi plant a theuluoedd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd drwy ffonio un o'r rhifau isod:

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Merthyr Tudful – 01685 727400 (neu fis@merthyr.gov.uk)
Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Rhondda Cynon Taf – 0800 1804151 (neu fis@rctcbc.gov.uk)

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Ar ôl derbyn yr atgyfeiriad, bydd yr wybodaeth yn cael ei rhannu gydag asiantaethau eraill. Bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynglŷn ag a ddylai asesu ddigwydd ai peidio. Efallai bydd gofyn i'r gweithiwr/person proffesiynol unigol wneud rhai o'r tasgau canlynol (neu'r tasgau i gyd), a dylai'r person yma fod yn barod ac yn fodlon i'w gwneud:

- Cymryd rhan mewn trafodaeth neu gyfarfod strategol
- Cynorthwyo ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47
- Bod yn bresennol yn y gynhadledd amddiffyn plant
- Darparu adroddiad ysgrifenedig ar gyfer y gynhadledd amddiffyn plant
- Cyfrannu at yr asesiadau cychwynnol a chraidd

Cyfrifoldeb y gweithwyr/pobl broffesiynol yw sicrhau bod y pryderon amddiffyn plant yn cael eu cymryd o ddifrif a'u bod yn cael sylw. Mae pob gweithiwr/person proffesiynol yn gyfrifol am ei ran ei hun yn y broses amddiffyn plant, ac os yw'n dal i bryderu am y plentyn, fe ddylai atgyfeirio'r achos unwaith eto a/neu ddod â'r mater i sylw brys yr uwch reolwr.

Gwnewch bob ymdrech i lenwi copi electronig o'r ffurflen, ond os ydych chi'n llenwi copi caled, defnyddiwch feiro **du** a llythrennau clir. Tynnwch linell drwy unrhyw gamgymeriadau

gyda beiro. Peidiwch â defnyddio hylif cywiro. Anfonwch y dogfennau gwreiddiol, ac **nid** copïau ohonyn nhw.

Adran 1: Y rheswm dros yr adroddiad

Atebwch bob cwestiwn yn llawn. Sicrhewch eich bod chi'n cynnwys y canlynol, os ydyn nhw'n hysbys i chi:

- manylion am natur y cam-drin honedig neu dybiedig, neu am y pryderon cyffredinol
- dyddiad, amser a lleoliad y cam-drin honedig
- manylion yr holl bersonau a welodd y cam-drin yn uniongyrchol
- enw, oed a chyfeiriad y person sydd â gwybodaeth uniongyrchol am y cam-drin honedig/tybiedig
- enw, oed a chyfeiriad unrhyw berson rydych chi'n gwybod sydd â gwybodaeth am y cam-drin honedig/tybiedig

PAGE 5

- gwybodaeth ynglŷn ag a yw'r plentyn wedi cael archwiliad meddygol yn ddiweddar, ac os felly, gan bwy
- disgrifiad bras o'r plentyn, er mwyn i'r person sy'n gwneud yr ymweliad cychwynnol fod yn sicr ei fod e wedi gweld y plentyn cywir
- gwybodaeth ynglŷn ag a oes unrhyw gofnodion eraill, a lleoliad y cofnodion hynny (Mae'n hanfodol bod gwybodaeth mewn perthynas â honiadau neu dybiaethau yn cael eu cofnodi mor llawn a chywir ag sy'n bosibl, yn unol â'r Gweithdrefnau Amddiffyn Plant)

Adran 2: Manylion yr ymarferydd sy'n cyflwyno'r adroddiad

Dydy hi ddim yn bosibl i bobl broffesiynol sy'n gwneud atgyfeiriad i ddewis aros yn anhysbys. Serch hynny, gall aelodau'r cyhoedd neu wirfoddolwyr wneud hynny os ydyn nhw'n dymuno.

- Rhowch enw llawn y person sy'n gwneud yr atgyfeiriad
- Rhowch deitl eich swydd yn llawn, ac enw'ch asiantaeth / sefydliad
- Rhowch gyfeiriad llawn (ar gyfer postio) eich asiantaeth / sefydliad
- Cofiwch gynnwys pob rhif cyswllt ynghyd ag unrhyw estyniadau
- Rhowch eich cyfeiriad e-bost
- Rhowch y berthynas â'r plentyn
- Rhowch eich perthynas â'r plentyn, e.e. ymwelydd iechyd ac ati

Adran 3: Manylion y Plentyn / Person Ifanc

Mewn perthynas â phwy y mae'r atgyfeiriad? Rhowch fanylion bob plentyn, yr honnir ei fod yn cael ei gam-drin, yn yr adran yma.

- Rhowch y cyfenw, yr enwau cyntaf ac enwau blaenorol yn llawn
- Rhowch oedran pob plentyn / person ifanc
- Rhowch ddyddiad geni pob plentyn, neu'r dyddiad geni disgwylidig (y dyddiad / y mis / ac yna'r flwyddyn)
- Nodwch a yw'r plentyn yn wryw neu'n fenyw (Gwryw / Benyw)
- Ethnigrwydd - defnyddiwch y codau canlynol:

* 1. Gwyn - Gogledd Ewrop

* 2. Gwyn - De Ewrop

* 3. Du

* 4. Asiaidd

* 5. Tsieineaidd, Japaneaidd, Asiaidd (de-ddwyrain)

* 6. Arabaidd neu Affricanaidd (gogledd)

* 7. Anhysbys

- Nodwch gyfeiriad presennol y plentyn / person ifanc. Os oes mwy nag un cyfeiriad, rhowch fanylion llawn
- Rhowch rif ffôn / ffôn symudol ar gyfer y plentyn / person ifanc
- Rhowch unrhyw gyfeiriadau e-bost hysbys ar gyfer y plentyn / person ifanc

Adran 4: Prif Warcheidwaid y Plentyn /Person Ifanc

- Rhowch y cyfenw, yr enwau cyntaf ac enwau blaenorol yn llawn
- Nodwch y berthynas â'r plentyn

PAGE 6

- Nodwch a yw'r person(au) â chyfrifoldeb rhiant - Diffiniad Cyfrifoldeb Rhiant yn a.3 (1) Deddf Plant 1989 yw:

...all the rights, duties, powers, responsibilities and authority which by law a parent of a child has in relation to the child and his property

- Nodwch a yw'r prif warcheidwaid yn wrywod neu'n fenywod (Gwryw / Benyw)
- Rhowch yr oed a'r dyddiad geni (dyddiad / mis / blwyddyn)
- Ethnigrwydd – defnyddiwch y codau sydd yn Adran 2 uchod
- Rhowch gyfeiriad y gwarcheidwad, os yw'n wahanol i un y plentyn, neu os oes mwy nag un cyfeiriad wedi cael eu nodi
- Rhowch rif ffôn / ffôn symudol ar gyfer y gwarcheidwad
- Rhowch unrhyw gyfeiriadau e-bost hysbys ar gyfer y gwarcheidwad
- Nodwch a yw'r gwarcheidwad yn gwybod am yr atgyfeiriad

Adran 5: Aelodau o deulu'r plentyn/person ifanc neu'r bobl bwysig eraill yn ei fywyd – sicrhewch eich bod chi'n cynnwys unrhyw blant eraill sydd efallai wedi bod â chysylltiad â'r cyflawnwr

- Rhowch y cyfenw, yr enwau cyntaf ac enwau blaenorol yn llawn
- Rhowch yr oed a'r dyddiad geni, neu'r dyddiad geni disgwylidig (dyddiad / mis / blwyddyn)
- Nodwch a yw'r oedolyn / plentyn / person ifanc yn wryw neu'n fenyw
- Ethnigrwydd – defnyddiwch y codau yn Adran 2 uchod
- Nodwch y berthynas â'r plentyn
- Rhowch gyfeiriad pob person sy'n cael ei enwi ynghyd â'r côd perthnasol

Adran 6: Manylion y Person(au) sy'n Peri Pryder

- Rhowch y cyfenw, yr enwau cyntaf ac enwau blaenorol yn llawn
- Nodwch yr oed a'r dyddiad geni (dyddiad / mis / blwyddyn)
- Nodwch a yw'r person(au) sy'n peri pryder yn wryw(od) neu'n fenyw(od)
- Ethnigrwydd – defnyddiwch y codau sydd yn Adran 2 uchod
- Nodwch y berthynas â'r plentyn
- Rhowch gyfeiriad llawn y person(au) sy'n peri pryder
- Nodwch y rhif ffôn / ffôn symudol
- Os ydych chi'n gwybod, nodwch a yw'r person(au) sy'n peri pryder yn gwybod am yr atgyfeiriad – os yw'n gwybod, rhowch fanylion llawn
- Nodwch a yw'r person sy'n peri pryder yn gweithio neu'n gwneud gwaith gwirfoddol gyda phlant neu oedolion sy'n agored i niwed, a rhowch fanylion llawn

Mae'r tri chwestiwn canlynol yn ymwneud â'r personau sydd wedi cael eu henwi yn Adrannau 2 – 4

1. Oes unrhyw bryderon ynglŷn â diogelwch pobl broffesiynol sy'n mynd i unrhyw un o'r cyfeiriadau yma, neu'n ymweld ag unrhyw rai o'r bobl yma?
 - Nodwch fanylion llawn y pryderon, e.e. trais, cyffuriau, anifeiliaid ac ati
2. Oes anghenion yn ymwneud â chyfathrebu / dehongli ar gyfer y plentyn a/neu'r teulu?

PAGE 7

- Cofiwch gynnwys manylion llawn ac eglurhad
3. Oes gan y plentyn a/neu'r teulu anabledd neu anghenion iechyd penodol?
 - Nodwch y diagnosis cywir os ydych chi'n gwybod beth yw e, ynghyd â manylion llawn

Adran 7 : Gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill

- Sicrhewch eich bod chi'n cynnwys pob gweithiwr proffesiynol rydych chi'n gwybod sydd â chysylltiad â'r plentyn /person ifanc a'i deulu. Cofiwch gynnwys y Meddyg Teulu a manylion yr ysgol os ydych chi'n gwybod y rhain.
- Rhowch y cyfenw a'r enwau cyntaf (yn llawn)
- Nodwch deitl swydd y gweithiwr proffesiynol
- Nodwch y garfan a'r asiantaeth sy'n cyflogi'r gweithiwr proffesiynol
- Nodwch gyfeiriad gwaith y gweithiwr proffesiynol
- Cofiwch gynnwys rhif ffôn / ffôn symudol y gweithiwr proffesiynol

Adran 8: Manylion ymyriadau blaenorol (statudol, arbenigol ac wedi'u targedu)

Mae'r adran yma'n darparu rhestr o asiantaethau statudol ac arbenigol sydd efallai wedi bod mewn cysylltiad â'r plentyn / person ifanc a'i deulu.

Nodwch 'Oes' neu 'Nac oes' i ddangos a oes cysylltiad wedi bod gydag asiantaethau eraill. Os nad ydych chi'n gwybod, ticiwch 'Anhysbys'.

Adran 9: Manylion Asesiadau Risg Blaenorol

Nodwch a oes **unrhyw** asesiadau sydd wedi'u cwblhau, e.e. Taf, MIA, Trais Domestig, camddefnyddio sylweddau, ymddygiad peryglus ac ati. Os oes, atodwch yr asesiad i'r ffurflen atgyfeirio.

Adran 10: Caniatâd

Os yw'r atgyfeiriad ar gyfer plentyn mewn angen, rhaid ceisio caniatâd y rhiant. Bydd hi'n angenrheidiol i drafod pam bod atgyfeiriad yn cael ei wneud gyda'r rhieni/gwarcheidwaid, ac esbonio mai cael cymorth ar gyfer eu plentyn / plant, a'r teulu, gan asiantaethau ataliol a statudol, yw'r bwriad (o bosibl).

Yn ogystal â hynny, mae'n ymarfer da i roi gwybod i rieni am atgyfeiriad amddiffyn plant sy'n ymwneud â'u plentyn **oni bai** fod gweithwyr proffesiynol o'r farn y byddai hynny'n peryglu'r plentyn ymhellach. Sicrhau diogelwch y plentyn yw'r flaenoriaeth bennaf.

Rhaid i weithwyr proffesiynol, sy'n cael caniatâd ar gyfer atgyfeirio, nodi yng nghofnodion yr asiantaeth bod caniatâd wedi cael ei roi.

Nodwch ar y Ffurflen Cyflwyno Adroddiad am Blentyn (C1) ble mae'r caniatâd wedi cael ei gofnodi.

PAGE 8

Os nad yw caniatâd wedi cael ei roi, **RHAID** i'r ffaith honno gael ei chofnodi yn y Ffurflen Cyflwyno Adroddiad am Blentyn (C1), ynghyd â'r cyfiawnhad am beidio â'i roi.

Tîm o amgylch y teulu – Rhondda Cynon Taf

Mae'r Tîm o Amgylch y Teulu yn gweithio gyda theuluoedd sydd ag anghenion ychwanegol, er lles y plentyn neu'r person ifanc, pan fo'r anghenion yma'n galw ar sawl gwasanaeth. Llwybr 'amlddisgyblaeth' sy'n ei ddisgrifio orau ac mae'r llwybr yma'n cynnwys camau penodol. Mae'r camau yma yn disgrifio elfennau allweddol gweithio amlddisgyblaeth llwyddiannus wrth ymdrin â'r achosion yma.

Mae gofyn am ddull gweithredu hyblyg - gan ddechrau gyda'r egwyddor y dylen ni ymdrechu i sicrhau bod y Llwybr a'i gamau yn cael eu teilwra i anghenion y teulu, ond hefyd, gan gydnabod y bydd angen cwblhau rhai o'r camau (e.e. asesiad) cyn medru cytuno ar gynllun manwl ar gyfer y teulu a rhoi'r cynllun hwnnw ar waith.

I gael ragor o wybodaeth am y Tîm o Amgylch y Teulu, cysylltwch â'r tîmoedd canlynol:

Cwm Rhondda – 01443 744187

Taf Elái – 01443 744134

Cwm Cynon – 01443 744135

E-bost: TeamAroundTheFamily@rctcbc.gov.uk

Cymorth Ymyriadau Lluosog (MIA) – Merthyr Tudful

Mae MIA ar gael i deuluoedd sydd angen gwasanaethau cymorth ychwanegol; hynny yw, ar ben y gwasanaethau cyffredinol maen nhw'n eu defnyddio eisoes e.e. yr ysgol a gofal iechyd.

Mae MIA yn cynnwys pedwar maes gwasanaeth i bob teulu sy'n derbyn cymorth:

- Meini prawf cymhwysedd i bennu'r anghenion, sy'n seiliedig ar “ddangosyddion *Think Family*”
- Gweithwyr Allweddol i fod yn brif bwynt cyswllt i'r teulu
- Aseiad Cyffredin i bennu'r cymorth sydd ei angen
- Dull 'Tîm o amgylch y teulu', i sicrhau bod asiantaethau yn cydweithio ar ran y teulu
- Y teuluoedd sydd yn debygol o fod â'r angen i ddefnyddio gwasanaeth MIA yw'r rhai hynny sydd efallai yn profi anawsterau yn eu bywydau mewn perthynas ag unrhyw rai o'r meysydd yma:

* Tai

* Arian

* Addysg

- * Iechyd a Lles
- * Rhianta
- * Ymddygiad plant

Prif fwriad MIA yw darparu cymorth ar gyfer y teulu cyfan; rhieni/ gwarcheidwaid, pobl ifainc a phlant.

PAGE 9

GWNEUD ATGYFEIRIADAU I MIA

Gwneud Atgyfeiriadau i MIA

Dyma enghreifftiau o resymau dros wneud atgyfeiriad:

1. Mae'r teulu eisoes yn defnyddio sawl gwasanaeth a byddai'r broses 'Tîm o amgylch y teulu' o fantais iddo, neu

2. Mae'r teulu wedi gofyn am gymorth, mae ganddo anghenion ychwanegol sydd yn galw am gymorth gan fwy nag un gwasanaeth, ac mae'n bodloni nifer o ddangosyddion *Think Family*. Mae'r cymorth wedi'i anelu at y teuluoedd hynny nad yw eu hanghenion eto'n gymhleth, a lle nad ydyn nhw'n defnyddio gwasanaethau statudol, e.e. ymyrraeth Gwasanaethau Cymdeithasol. Serch hynny, mae'n bosibl y bydd atgyfeirio yn gam priodol os yw'r gwasanaethau statudol ar fin dod i ben, ac os yw'r teulu yn dymuno cael cymorth pellach, yn rhan o'i gynllun gadael.

Mae proses sengl ar gyfer atgyfeirio i MIA ac mae ffurflen atgyfeirio safonol sy'n seiliedig ar ddangosyddion '*Think Family*'. Mae angen i'r teulu gymryd rhan yn llawn yn y broses o lenwi'r ffurflen atgyfeirio fel ei fod yn cydnabod yr angen am gymorth. Mae taflenni gwybodaeth i blant a rhieni, sy'n egluro prosesau MIA a'r cymorth sydd ar gael. Dylai'r

ffurflen atgyfeirio gael ei chyflwyno i garfan MIA, wedi'i harwyddo gan y teulu a'r sawl sy'n gwneud yr atgyfeiriad. Mae pob atgyfeiriad yn cael ei gofnodi yng nghronfa ddata MIA gan weinyddwr. Cronfa ddata'r Awdurdod Lleol yw hwn, sy'n dilyn rheolau Diogelu Data. Mae cydlynnydd MIA yn adolygu pob atgyfeiriad ac yn gwirio bod y cynnwys yn briodol. Mae'r cydlynnydd hefyd yn sicrhau bod y ffurflen wedi cael ei llenwi'n gywir, a'i llofnodi gan y rhiant. Os oes unrhyw wybodaeth sydd ar goll, neu fod y cydlynnydd o'r farn bod angen rhagor o wybodaeth, bydd e'n cysylltu â'r sawl sy'n gwneud atgyfeiriad yn uniongyrchol i ofyn am yr wybodaeth. Mae'r cydlynnydd wedyn yn llenwi'r ffurflen Cais am Wybodaeth Gwasanaethau Cymdeithasol/Timau Troseddau Ieuentid/Addysg, ac yn ei chyflwyno drwy e-bost diogel i Reolwr y Garfan Derbyn ar ddyletswydd/ Timau Troseddau Ieuentid. Dylai'r ffurflen gael ei dychwelyd o fewn 48 awr, gan ddarparu unrhyw wybodaeth berthnasol a datgan a yw'r atgyfeiriad yn briodol neu beidio. Mae'r ffurflen atgyfeirio yn cael ei chadw'n ddiogel hyd nes i drafodaethau gael eu cynnal yng nghyfarfod nesaf Panel MIA. Mae cyfarfod yn cael ei gynnal bob pythefnos.

Dangosyddion 'Think Family'

Mae plant sy'n cael eu magu mewn teuluoedd sy'n wynebu sawl problem yn fwy tebygol o lawer o brofi deilliannau gwael. Mae defnyddio'r dangosyddion isod yn ffordd dda o adnabod teuluoedd gydag anghenion cymhleth sydd ddim eto ar y trothwy ar gyfer ymyrraeth gan wasanaethau statudol.

Os yw mwy nag un o'r dangosyddion yma yn wir am deulu, bydd angen cymorth gan sawl gwasanaeth, a byddai atgyfeirio at MIA yn briodol. Bydd y gwasanaeth yn canolbwyntio ar ymgysylltu â'r teulu a gweithio tuag at ddiwallu ei anghenion ymddangosiadol.

Dyma'r dangosyddion:

1. Does neb yn y teulu yn gweithio
2. Mae'r teulu yn byw mewn cartref dros dro/gorlawn/mewn cyflwr gwael
3. Does dim un o'r rhieni â chymwysterau academig
4. Mae problem iechyd meddwl gan y fam

PAGE 10

5. Mae o leiaf un o'r rhieni â salwch/anabledd/llesgedd hirdymor sy'n cyfyngu ei weithgareddau bob dydd
6. Mae'r teulu ag incwm isel (yn is na £287 yr wythnos)
7. All y teulu ddim fforddio prynu eitemau bwyd neu ddillad penodol
8. Mae tystiolaeth o drais domestig yn y cartref
9. Mae tystiolaeth o gamddefnyddio sylweddau yn y cartref

I gael rhagor o wybodaeth am MIA, cysylltwch â charfan MIA:

Ffôn: 01685 725011

E-bost: MIA@merthyr.gov.uk

Lle mae dod o hyd i ffurflen electronig ar gyfer cyflwyno adroddiad am blentyn:

Mae modd llenwi ffurflen electronig ar y gwefannau yma:

www.rctcbc.gov.uk

www.merthyr.gov.uk

<http://www.south-wales.police.uk/?lang=cy>

Anfon eich ffurflen cyflwyno adroddiad am blentyn:

Trwy e-bost i'r cyfeiriadau yma:

Gwasanaethau i Blant RhCT - childrens.mash@rctcbc.gcsx.gov.uk

Gwasanaethau i Blant Merthyr Tudful - childrens.mash@merthyr.gcsx.gov.uk

Trwy'r post:

MASH, Gwasanaethau i Blant RhCT / Merthyr Tudful, Gorsaf Heddlu Pontypridd, Berw Road,
Pontypridd, Morgannwg Ganol, CF37 2TR

Dylai atgyfeiriadau sydd ar frys, **y tu allan i oriau swyddfa arferol**, gael eu hanfon at Garfan

Gwasanaethau Cymdeithasol ar ddyletswydd mewn achos o argyfwng (EDT):

carfanarddyletswyddgwaithcymdeithasol@rctcbc.gcsx.gov.uk

Rhif Ffôn: 01443 743665

Cysylltu â'r Hwb Diogelu Amlasiantaeth

Blaen swyddog MASH Rhondda Cynon Taf – 01443 742928

Blaen swyddog MASH Merthyr Tudful – 01443 743619

Swyddogion yr Heddlu ar gyfer Amddiffyn Plant – 01443 742916

Blaen swyddog MASH y Gwasanaeth Iechyd – 01443 742949